

**POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2016**

1. CYFLWYNIAD

- a. Mabwysiadodd Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan Gynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 30 Awst 2007. Mae rhan 6.4 o'r cynllun yn mynnu bod y Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y cynllun, bod y cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar yr adroddiad, a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- b. Penodwyd Cyngorwyr Rob Phillips, Dorothy Williams, Chris Thomas, Selwyn Walters, Ann Morgan a Chlerc y Dref i Bwyllgor Iaith Gymraeg i gyflwyno'r adroddiad blynyddol.
- c. Nid yw'r adroddiad hwn yn sylwi ar bob pwynt gweithredu yn y cynllun, dim ond y rhai lle mae angen nodi llwyddiant neu argymhell newid ar gyfer y dyfodol.
- d. Gwneir argymhellion i wella'r cynllun iaith yn adran 7.

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

- a. Mae'r cyngor wedi parhau i hybu'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn unol â'r cynllun gan gynnwys rhoi cymorth ariannol i Eisteddford Rhys Thomas James (Pant-y-fedwen) Llanbedr Pont Steffan, Urdd Gobaith Cymru (Ceredigion), Aelwyd yr Urdd, Ras yr Iaith a Chyfeillion Theatr Felin-fach (ar gyfer Teilwng yw'r Oen)
- b. Nid oedd newid i'r cynllun wedi cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn.
- c. Gwnaeth y cyngor gais i Gyngor Sir Ceredigion i ystyried Llanbedr Pont Steffan fel lleoliad ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gydag ymateb cadarnhaol o unigolion a mudiadu'r dref. Penodwyd pwyllgor o gyngorwyr a chynrychiolwyr mudiadau lleol i lunio cais, a chyflwydwyd y cais i'r Cyngor Sir gyda chefnogaeth lawn y Cyngor.

3. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

- a. Mae'r cyngor yn parhau gyda'r arfer o ateb gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi cael ei nodi ar bapur pennawd a llofnod ebost y cyngor.
- b. Parhaodd y cyngor i ddarparu gwefan ddwyieithog gyda chofnodion y cyngor a chynnwys parhaol ar gael yn Saesneg a'r Gymraeg.
- c. Mae'r cyngor yn parhau gyda'r arfer o gynnal gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer seremoni sefydlu'r Maer, cyfarfodydd llawn y cyngor ac unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y cyngor.
- d. Penderfynodd y cyngor i ddarllen gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn y Gymraeg i'r cyfarfod, a darllen gohebiaeth a derbynnir yn Saesneg yn Saesneg. Os dderbynnir gohebiaeth yn ddwyieithog, darllenir yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

4. GWYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

- a. Mae papur pennawd, gwefan ac e-bost y Cyngor yn ddwyieithog. Mae neges ar bapur pennawd ac e-byst y Cyngor yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- b. Mae'r rhaglen a gyhoeddir gan y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio yn ddwyieithog.
- c. Mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg wrth rhoi grantiau. Mae ffurflen i'r rhai sy'n gwneud cais am arian i'w lenwi, er mwyn esbonio sut mae nhw'n adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

- a. Argymhellir dylid rhoi datganiad i'r *Cambrian News*, *Ceredigion Herald* a'r *Carmarthen Journal* a hysbyseb yn *Clonc* i hysbysebu'r adolygiad blynyddol a gofyn am sylwadau.

- b. Argymhellir gosod copïau ar wefan y Cyngor ac yn y llyfrgell. Bydd copïau ar gael oddi wrth y Clerc.

6. ARGYMHELLION

- a. Fod y cyngor yn parhau gyda'r drefn o gael cyfieithydd ar y pryd yn ystod cyfarfodydd arferol y Cyngor.
- b. Fod y cyngor yn cyd-weithio gyda phapur bro Clonc i gefnogi'r papur a hyrwyddo digwyddiadau yn yr iaith Gymraeg.
- c. Fod y Cyngor yn cyd-weithio gyda mudiadau eraill yn y dref i sefydlu 'Pwerdy Iaith' er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, creu cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymaeg.
- d. Fod y Cyngor yn ystyried cynnal digwyddiad yn y dref ar ddydd Gwyl Dewi.

**Pwyllgor Iaith Gymraeg
Mai 2016**